# Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru
# Crefydd a Gofal Maeth

## Rhagymadrodd

Mae gan grefydd a systemau cred rôl arwyddocaol – rôl ganolog, yn aml – ym mywydau llawer o bobl. Mae ganddynt y potensial i hyrwyddo cadernid ac i ddarparu rhwydwaith helaeth o gymorth, ond mae yna hefyd y posibilrwydd y gallant beri tyndra o fewn maethu.

Fel gofalwr maeth, rhywbeth pwysig i'w gofio, pan allai'ch credoau crefyddol wrthdaro â chredoau plentyn maeth, yw bod ganddynt hawl i ddewis eu crefydd eu hunain. Neu, os ydynt yn iau, fod gan eu rhieni biolegol yr hawl i benderfynu drostynt. Efallai na fyddwch yn cytuno bob amser, ond mae derbyn bod eich credoau'n wahanol a bod yn barod i dderbyn bod yna wahaniaethau yn allweddol i gynnal perthynas dda mewn maethu.

## Gwerthfawrogi crefydd neu system gredoau plentyn neu berson ifanc

Gall plentyn neu berson ifanc ddod i ofal maeth o deulu sy'n arddel crefydd neu system o gredoau. Mae deall credoau ac arferion y teulu'n rhan bwysig o ddeall y plentyn neu'r person ifanc, ac o'u cynorthwyo nhw i ddatblygu hunaniaeth iach ac ymdeimlad o fod yn perthyn. Gall cymryd rhan mewn cymuned grefyddol fod yn neilltuol o bwysig ar gyfer hunaniaeth a lles os na all plentyn neu berson ifanc fyw gyda'u teulu, yn enwedig os ydynt wedi cael profiad o symudiadau a newidiadau o fewn y gyfundrefn derbyn gofal.

Rhan o werthfawrogi crefydd plentyn neu berson ifanc yw sut rydych yn ymateb os ydynt yn cael profiad o wahaniaethu anghyfreithlon neu drosedd casineb oherwydd eu crefydd. Mae ar ofalwyr maeth angen cymryd unrhyw ddigwyddiad o ddifri', gan roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad i'r gwasanaeth maethu ac i'r heddlu, ac i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i barhau i fod yn bositif ynglŷn â'u crefydd a'u hunaniaeth.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod gofalwr maeth yn gallu diwallu anghenion plentyn, yn cynnwys ei anghenion crefyddol. Nid yw gwerthfawrogi crefydd neu system gredoau plentyn neu berson ifanc yn golygu bod yn rhaid ichi gytuno â nhw neu fod yn aelod o'r un grefydd. Bydd arnoch angen cyfathrebu â gwerthfawrogiad a dealltwriaeth amdani, ei gwerthfawrogi am ei rôl ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc, a, lle y bo angen, helpu i hwyluso'r plentyn neu'r person ifanc i arddel eu crefydd. Yn yr un modd, os nad oes gan blentyn neu berson ifanc grefydd neu system gredoau, mae arnoch angen eu cefnogi nhw yn hyn.

## Pwy sy'n penderfynu arferion crefyddol plentyn?
Yn gyfreithiol, mae gan blentyn neu berson ifanc yr hawl i arddel pa grefydd bynnag ac i gredu pa gredoau bynnag y maent yn eu dewis, ar yr amod nad yw hyn yn mynd yn groes i hawliau pobl eraill neu'n eu peri i dorri'r gyfraith.

Weithiau, fe fydd yna anghytuno rhwng plentyn a'i rieni ynglŷn â chrefydd ac arferion crefyddol. Os yw hyn yn digwydd, mae arnoch angen hysbysu gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch asiantaeth faethu ar y cyfle cyntaf er mwyn datrys unrhyw ddrwgdeimlad cyn iddo waethygu.

Nid yw byth yn dderbyniol i ofalwr maeth geisio newid crefydd neu system gredoau plentyn. Os ydych yn credu y gall fod ar blentyn neu berson ifanc eisiau newid eu crefydd neu'u system gredoau, yn enwedig os ydyw er mwyn mabwysiadu'ch crefydd neu'ch system gredoau chi, mae'n hanfodol hysbysu'u gweithiwr cymdeithasol a'ch asiantaeth faethu chi yn ddi-oed. Nid yw awdurdod dirprwyedig yn cynnwys materion yn ymwneud â chrefydd.

## Ymdrin â chredoau sy'n gwrthdaro
Os ydych yn maethu plentyn sy'n arddel gwahanol gredoau i chi, mae'n fuddiol cael cymaint o drafodaethau ag y mae'n bosibl ichi'u cael gyda'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a theulu biolegol y plentyn, er mwyn dysgu am eu credoau ac i ddarparu cyngor ynglŷn â'r ffordd orau i'w cynorthwyo. Ni fydd hi bob amser yn bosibl siarad â rhieni biolegol y plentyn. Os dyma'r achos, os yw'r plentyn yn ddigon hen, sgwrsiwch â nhw a gofynnwch iddynt sut y gallwch eu helpu nhw. Er enghraifft, a oes arnynt angen rhywbeth gennych, megis mynd â nhw i fosg neu eglwys, neu ddarparu diet arbenigol?

## Pryderon ynglŷn ag arferion crefyddol
Gall pryderon godi ynglŷn â'r hyn a wêl y gofalwr maeth fel arferion niweidiol sy'n gysylltiedig â chrefydd, neu'r effaith y maent yn ei gredu y caiff hi ar ddatblygiad emosiynol ac iechyd meddwl y plentyn neu'r person ifanc. Mae angen trafod y rhain gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a rhoi sylw iddynt yn y cynllun gofal a chymorth. Codwch bryderon, os gwelwch yn dda, hyd yn oed os nad ydych yn sicr bod yna gyfiawnhad i'ch pryder neu os ydynt wedi codi oherwydd eich diffyg cynefindra a dealltwriaeth chi o grefydd, arferion crefyddol neu system gred anghyfarwydd ichi.

Gall fod pobl ifanc wedi'u maethu, sy'n chwilio am ymdeimlad o fod yn perthyn ac am ddiben mewn bywyd, fod yn fwy agored i gael eu radicaleiddio neu i arferion crefyddol eithafol. Eto, mae'n bwysig codi pryderon gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a chyda'ch asiantaeth faethu. Efallai y bydd arnoch hefyd eisiau ymofyn cyngor y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) (gweler Adnoddau).

Mae radicaleiddio'n bwnc anodd ei godi mewn trafodaeth gyda'ch plentyn, ac mae'n rhaid ymdrin â'r pwnc yn sensitif. Er mwyn eu hatal rhag cael eu cyflwyno'n anfwriadol i syniadau radical, mae'n bwysig eich bod yn berson hawdd mynd ato, a'u bod yn teimlo y gallant siarad â chi os ydynt wedi'u cyflwyno i syniadau radical ar-lein. Bydd bod yn ddigyffro ynglŷn â'r sefyllfa hefyd yn helpu'ch plentyn i fod yn fwy

agored a didwyll gyda chi. Mae credoau'ch plentyn yn bwnc sensitif a bydd angen mynd o'i chwmpas hi'n ofalus, gan nad oes arnoch eisiau iddynt gilio oddi wrthych.

## Maethu os ydych yn arddel crefydd neu system gredoau

Mae credoau a gwerthoedd crefyddol yn aml yn gymhelliant cryf dros faethu. Mae'n bwysig archwilio sut y gallai'ch credoau a'ch gwerthoedd wella a lleihau'ch gallu i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc sydd wedi'i faethu.

Cyn maethu, mae ar y rheiny sy'n arddel barn grefyddol gref angen ystyried sut y byddent yn teimlo petai plentyn neu berson ifanc yn cael ei leoli gyda nhw y mae'i ffordd o fyw neu'i gefndir yn gwrthdaro â'r credoau y maen' nhw'n eu harddel. Byddai arnynt hefyd angen bod yn sicr y gallant hwythau gadw at bolisïau'r asiantaeth faethu a'u bod yn barod i ddiwallu anghenion unrhyw blentyn a leolwyd â nhw. Wrth gwrs, os ydych yn arddel crefydd neilltuol, fe all eich gwasanaeth maethu benderfynu nad yw'n syniad da lleoli plentyn o grefydd arall gyda chi - er enghraifft, os ydych yn mynychu eglwys ar ddydd Suliau, efallai nad yw'n bariad da ar gyfer llanc Mwslimaidd yn ei arddegau nad yw'n dymuno mynychu eglwys gyda chi, ond efallai hefyd na all dreulio boreau Sul ar ei ben ei hun yn eich cartref.

Mae yna nifer fechan o asiantaethau maethu sy'n recriwtio o grefyddau penodol, ond mae'r rhan fwyaf yn croesawu ceisiadau gan bobl o unrhyw grefydd neu ddim crefydd.

## Maethu plentyn neu berson ifanc y mae'i grefydd neu'i system gredoau'n wahanol i rai y chi

Mae crefydd a system gredoau'n rhan bwysig o baru plentyn neu berson ifanc â theulu maeth. Fe gwyd adegau pan nad yw hyn yn bosibl.

Mae'n bwysig siarad am hyn fel rhan o'r cytundeb lleoli. Byddwch yn ymwybodol o'r hyn y bydd arnoch angen ei newid yn eich cartref (megis prydau bwyd) ac arferion (megis mynychu man addoli, neu ddim yn gallu mynychu'ch man addoli eich hun). Os nad ydych yn teimlo y gallech gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd sy'n magu'u hunaniaeth a'u hymdeimlad o berthyn, yn eich cartref ac yn eu cymuned grefyddol hwythau, fel ei gilydd, mae'n rhaid ichi ddweud hynny cyn y lleolir y plentyn neu'r person ifanc â chi.

Os yw'r lleoliad i'w wneud, mae'n fuddiol i chi neu i weithiwr cymdeithasol y plentyn siarad â rhieni'r plentyn neu'i deulu ehangach ynglŷn â'u harferion a'u disgwyliadau crefyddol beunyddiol, yn hytrach na gwneud tybiaethau. Dylech hefyd, lle y bo'n bosibl, wneud defnydd o ofalwyr maeth eraill neu'r gymuned ehangach ar gyfer y grefydd neilltuol honno.

## Adnoddau

Mae gan y BBC gyflwyniadau defnyddiol i brif grefyddau'r byd
www.bbc.co.uk/religion/religions/

Mae'r NSPCC yn darparu cyngor ynglŷn â diogelu plant a phobl ifanc rhag cael eu radicaleiddio
www.nspcc.org.uk/what-you-can-do/report-abuse/dedicated-helplines/protecting-children-from-radicalisation/

Mae Llinell Gymorth Ieuenctid Mwslimaidd (MYH) yn elusen genedlaethol sydd wedi ennill gwobrau sy'n darparu gwasanaethau cymorth am ddim a chyfrinachol ynghylch ffydd a materion diwylliannol sensitif, a anelir at bobl ifanc sy'n agored i niwed yn y Deyrnas Unedig. 0808 808 2008

Gall rhieni ffonio llinell gymorth oedolion 24/7 am ddim yr NSPCC ar 0808 800 5000, anfon e-bost at help@nspcc.org.uk neu anfon neges destun i 88858. Gallwch hefyd gysylltu â llinell gymorth Stop it Now! ar 0808 1000 900, lle y gallwch ymofyn cyngor yn ddienw.

Mae Rhwydwaith Maeth Mwslimaidd yn cefnogi gofalwyr maeth nad ydynt yn Fwslimiaid i ofalu am blentyn Mwslimaidd, yn ogystal â chefnogi ymgeiswyr a gofalwyr maeth Mwslimaidd www.muslimfosternetwork.org.uk/

## Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth hanfodol i aelodau, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori.

**Cyngor**
Llinell Faethu Cymru
Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp dydd Llun i ddydd Gwener.
Os galwch ar adegau eraill, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:
Fosterlinewales@fostering.net
Rhwydwaith Maethu Cymru
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB.

**Cymorth ac Adnoddau**
Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a dibynadwy i drafod materion gofal maeth.
thefosteringnetwork.org.uk

**Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori**
Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**
Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

**Cysylltu**
I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Rhwydwaith Maethu Cymru
33 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB.

Ffôn: 029 2044 0940
E-bost: wales@fostering.net
Gwe: thefosteringnetwork.org.uk

Canfyddwch ni ar Facebook: facebook.com/thefosteringnetwork
Dilynwch ni ar Twitter: @fosteringnet
Dilynwch ni ar Instagram: @fosteringnet

/thefosteringnetwork @fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017